sports council wales
cyngor chwaraeon cymru

researchfindings

2008-09 Active Adults Survey

Headline results from the Survey

About the Active Adults Survey

The Active Adults Survey is a biennial household survey commissioned by the Sports Council for Wales to measure levels of sports participation, club membership, volunteering and other sporting matters amongst adults in Wales.

The Survey is the main source of data in Wales on incidence of sports participation, sports club membership and other sport-related issues amongst adults (aged 15 years and above) in Wales, providing unrivalled insight into patterns of sports participation across the adult population.

The results of the Survey are used by partner organisations including the Welsh Assembly Government, local authorities and national governing bodies of sport to inform their strategic planning and operations.

The 2008-09 Active Adults Survey collected over 22,000 responses based on a random probability sample stratified by local authority, and was undertaken by Cello mruk research, on behalf of the Sports Council for Wales. Further information on the survey method is included on the final page of this briefing note.

About this Research Findings paper

This paper accompanies the release of data tables relating to the following headline measures:

- participation in sport and physical recreation;
- competing in sporting activities;
- sports club membership and participation;
- volunteering in sport.

These statistics are being released at national, regional and local authority levels, by gender and overall. Statistics by age group, and disability/limiting long-term illness are also being released, at national level only.

For further information on the Active Adults Survey, and other research conducted by the Sports Council for Wales please contact:

research@scw.org.uk

www.sports-council-wales.org.uk

LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

March 2010

Participation in sport and physical recreation

Any participation in the previous four weeks

56% of adults participated in any sport or physical recreation activity in the four weeks prior to interview[1]. The data suggests a decrease from 2004-05 (59%)[2].

In line with patterns identified in previous surveys, participation decreases with age: 73% of 15-24 year olds participated in an activity at least once, compared with 37% of those aged 65 and over.

Males (62%) are more likely to participate than females (51%). This 'gender gap' persists within all three SCW regional office areas and most local authority areas.

When comparing participation rates at local authority level (see *Figure 1*, below), most local authority areas have rates similar to the participation rate nationally (shown in black on the chart). Only three local authority areas have participation rates significantly above the national average, all in east Wales: Cardiff, Powys and Flintshire.

Four areas in the South Wales Valleys have participation rates significantly lower than the national average: Blaenau Gwent, Merthyr Tydfil, Torfaen and Rhondda Cynon Taf.

Any participation in the previous four weeks, excluding billiards, snooker and walking

When billiards, snooker and walking are removed from the 'any participation' measure, 38% participate. This suggests an increase from 2004-05 (36%)[2].

The 'gender gap' identified for the 'any participation' measure increases further in size when billiards, snooker and walking are not included: males (47%) are more likely to participate than females (31%). Participation also decreases with age.

1 95% confidence intervals: upper = 58%, lower = 55%.

2
- Care need to be taken when making comparisons between the 2008-09 Survey results and previous Active Adults Surveys due to the change in survey method.
- Differences may be partially explained by the differences in data collection methods. Because the methods are not strictly comparable, presented results report a 'suggested direction of change' rather than demonstrating statistically significant differences in participation over time.
- See Key Quality Information at the end of this document for further information.

Figure 1: Any participation in sport and physical recreation, in the previous four weeks (%)



At local authority level, Cardiff also has the highest participation rate when billiards, snooker and walking are not included, while Flintshire's participation rate is also significantly above the national rate.

Once again, most authorities' participation rates are between 35% and 45%, in line with the national participation rate of 39%.

Five local authority areas have participation rates significantly below the national participation rate. As was the case for 'any participation', Blaenau Gwent, Merthyr Tydfil, Torfaen and Rhondda Cynon Taf are below the national rate, together with the Isle of Anglesey.

Participation by activity types

When participation is broken down by activity type, certain types of activity can be seen as maintaining their participation rates as age increases, as illustrated in *Figure 2*, below.

Thus, while participation in outdoor games and activities decreases sharply beyond the 15-24 year old age group, the participation rate for outdoor pursuits remains above 40% for all age groups prior other than the 65+ age group.

There are also significant differences in the gender profile for some activity types. Men are three times more likely than women to participate in outdoor games, whereas the difference in participation rates is relatively small (though still significant) for indoor games.

Figure 2: Participation in different activity types in the previous four weeks (%)



Sports club membership and participation

Club membership

Overall, 16% of adults are members of a sports club. The data suggests an increase from 2004-05 (12%)[2]. Club membership decreases with age: 25% of 15-24 year olds are members, compared with 28% of 25-34 year olds and 17% of 35-44 year olds.

Figure 3, below, shows rates of club membership by local authority. Again, most local authority areas have membership rates close to the national rate, although – similar to the participation measures – club membership is significantly below the national membership rate for many of the South Wales Valleys authorities.

Males (22%) are more likely to be sports club members than females (11%) This pattern is repeated at regional level, although not in all cases at local authority level; in Neath Port Talbot, 38% of males are members of a club, compared with 10% of females. In Blaenau Gwent, 10% of both males and females are club members.

When non-participating club members are removed from the analysis, these differences persist.

Sports coaching and instruction

Seven percent of adults – a majority (51%) of sports club participants – reported receiving coaching or instruction in an activity at their sports club, in the previous twelve months.

Five percent of adults reported receiving coaching regularly (that is, at least once a week on average). The profile of those who received coaching is broadly in line with the patterns seen for club membership and participation.

1
- Care need to be taken when making comparisons between the 2008-09 Survey results and previous Active Adults Surveys due to the change in survey method.
- Differences may be partially explained by the differences in data collection methods. Because the methods are not strictly comparable, presented results report a 'suggested direction of change' rather than demonstrating statistically significant differences in participation over time.
- See Key Quality Information at the end of this document for further information.

Figure 3: Any sports club membership (%)



Overview of survey design

The survey results are based on 22,176 interviews with adults aged 15 and above across Wales. A random probability sampling method, stratified by local authority, was utilised, with selected households clustered by Output Area. Over 1,000 interviews were conducted in each local authority.

Fieldwork was conducted over a 12-month period – between 1st March 2008 and 28th February 2009 – to avoid any seasonal effects on the results.

Households were selected at random to participate in the research using the Postcode Address File complied by the Royal Mail. The selection is clustered by Output Area (selected at random) to minimise costs while ensuring the survey is robust. On contact with a selected household, one adult is selected at random using the Next Birthday Rule.

Selected households and individuals were under no obligation to take part in the survey, and no incentives were offered for them to do so. Households were contacted up to 6 times in order to complete an interview.

Interviews were conducted in the respondent's home, and took on average 21 minutes to complete.

The survey covers:

- participation levels in a range of sports and physical recreation activities;
- sports club membership and participation;
- volunteering in sport;
- participation in competitive sport;
- usage of leisure and fitness centres;
- barriers and motivation for participation in sport.

A range of demographic information is also collected for analysis, including gender, social class, age, disability and household structure. The sample is stratified to allow analysis at a local authority level as well as other geographical classifications.

Key quality information

a. 2008-09 Survey responses are weighted to take account of unequal selection probabilities, and for differential non-response, using a three-stage weighting protocol. This ensures that the distribution of the responding sample matches that of the adult Welsh population.

b. Where reported, 95% confidence intervals (calculated using SPSS Complex Samples module) are presented after adjustment for design effects.

c. The overall response rate for the survey was 62%. It should be noted that the clustered design of the survey means that the effective sample size will be somewhat lower than the actual sample size, and reported sample sizes should therefore be interpreted as a guide to precision only.

d. Definitions of participation measures are included in data tables and in text where appropriate.

e. Missing answers have been omitted from all tables and analyses.

f. For comparisons between statistics reported from the 2008-09 Survey, formal statistical tests are used to assess statistically significant differences.

g. Care needs to be taken when making detailed comparisons between the 2008-09 Survey results and previous Active Adults Surveys due to the change in survey method.

   Differences may be partially explained by the differences in data collection methods. Because the methods are not strictly comparable, presented results report a 'suggested direction of change' rather than demonstrating statistically significant differences in participation over time.

   For the 2004-05 Survey, interviews were completed according to quotas and interviewers made only one attempt to contact households. For the 2008-09 Survey, households were selected using a stratified random sample and up to six attempts at contact were made.

   The two survey methods are not therefore strictly comparable statistically. Judgements about whether differences over time should be considered meaningful have been made using pseudo-confidence intervals only and are not statistically valid.

   Further information on this issue can be found in the Survey Technical Report.

h. All local authority statistics are rounded to the nearest percentage point. National-level statistics for sports and activities are rounded to one decimal point.

sports council wales
cyngor chwaraeon cymru

darganfyddiadau**ymchwil**

Arolwg 2008-09 ar Oedolion Egnïol

Y prif ganlyniadau o'r Arolwg

Am yr Arolwg ar Oedolion Egnïol

Mae'r Arolwg ar Oedolion Egnïol yn arolwg ar gartrefi a gomisiynir bob dwy flynedd gan Gyngor Chwaraeon Cymru er mwyn mesur lefel y cyfranogiad mewn chwaraeon, yr aelodaeth o glybiau, y gwirfoddoli a'r materion eraill sy'n gysylltiedig â chwaraeon ymhlith oedolion Cymru.

Yr Arolwg yw'r brif ffynhonnell o ddata yng Nghymru am y cymryd rhan mewn chwaraeon, yr aelodaeth o glybiau chwaraeon a materion eraill cysylltiedig â chwaraeon ymhlith oedolion (15 oed a hŷn) yng Nghymru, gan ddarparu darlun na cheir ei debyg o'r patrymau cymryd rhan mewn chwaraeon ymhlith ein hoedolion.

Defnyddir canlyniadau'r Arolwg gan sefydliadau partner, yn cynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a chyrff rheoli chwaraeon cenedlaethol fel sail ar gyfer eu cynllunio a'u gweithredoedd strategol.

Casglodd yr Arolwg yn 2008-09 ar Oedolion Egnïol fwy na 22,000 o ymatebion yn seiliedig ar sampl tebygolrwydd ar hap wedi'i haenu gan yr awdurdod lleol. Fe'i cynhaliwyd gan Cello mruk research ar ran Cyngor Chwaraeon Cymru. Ceir gwybodaeth bellach am ddull yr arolwg ar dudalen olaf y nodyn briffio hwn.

Am y papur hwn am Ddarganfyddiadau'r Ymchwil

Mae'r papur hwn yn cyd-fynd â rhyddhau tablau data perthnasol i'r prif fesurau a ganlyn:

- cymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden gorfforol;
- cystadlu mewn gweithgareddau chwaraeon;
- aelodaeth o glwb chwaraeon a chymryd rhan ynddo;
- gwirfoddoli mewn chwaraeon.

Mae'r ystadegau hyn yn cael eu rhyddhau ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lefel yr awdurdod lleol, yn ôl rhyw ac yn gyffredinol. Mae ystadegau yn ôl grŵp oedran ac anabledd / salwch yn cyfyngu yn yr hirdymor yn cael eu rhyddhau hefyd, ar lefel genedlaethol yn unig.

Am wybodaeth bellach am yr Arolwg ar Oedolion Egnïol a phob ymchwil a wneir gan Gyngor Chwaraeon Cymru, cysylltwch â:

✉ research@scw.org.uk

💻 www.cyngor-chwaraeon-cymru.org.uk

LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

Mawrth 2010

Cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden gorfforol

Unrhyw gyfranogiad yn ystod y pedair wythnos flaenorol

Cymerodd 56% o oedolion ran mewn unrhyw weithgaredd chwaraeon neu hamdden gorfforol yn ystod y pedair wythnos cyn y cyfweliad.[1] Mae hyn yn awgrymu gostyngiad ers 2004-05 (59%)[2].

Yn unol â'r patrymau a nodwyd yn yr arolygon blaenorol, mae'r cyfranogiad yn dirywio gydag oedran: cymerodd 73% o ieuenctid 15-24 oed ran mewn gweithgaredd unwaith o leiaf, o gymharu â 37% o'r rhai 65 oed a hŷn. Mae gwrywod (62%) yn fwy tebygol o gymryd rhan na benywod (51%). Mae'r 'bwlch hwn rhwng y rhywiau' yn bodoli yn ardaloedd pob un o'r tair swyddfa ranbarthol sydd gan CChC ac yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol.

Wrth gymharu'r cyfraddau cymryd rhan ar lefel yr awdurdod lleol (gweler *Ffigwr 1*, isod), mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol gyfraddau tebyg i'r gyfradd gymryd rhan genedlaethol (sydd i'w gweld mewn du ar y siart). Dim ond tri awdurdod lleol sydd â chyfraddau cymryd rhan sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae pob un yn nwyrain Cymru: Caerdydd, Powys a Sir y Fflint.

Mae gan bedair ardal yng Nghymoedd De Cymru gyfraddau sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol: Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Torfaen a Rhondda Cynon Taf.

Unrhyw gyfranogiad yn ystod y pedair wythnos flaenorol, ac eithrio biliards, snwcer a cherdded

O dynnu biliards, snwcer a cherdded o'r mesur ar gyfer 'unrhyw gyfranogiad', 38% sy'n cymryd rhan. Mae hyn yn awgrymu cynnydd o 2004-05 (36%)[2].

Mae'r 'bwlch rhwng y rhywiau' a nodir ar gyfer y mesur 'unrhyw gyfranogiad' yn cynyddu ymhellach wrth hepgor biliards, snwcer a cherdded: mae dynion (47%) yn fwy tebygol o gymryd rhan na merched (31%). Mae'r cymryd rhan yn gostwng gydag oedran hefyd.

---

1 cyflwynir egwyliau hyder 95%: uchaf 58%, is 55%

2
- Mae angen cymryd gofal wrth lunio cymariaethau rhwng canlyniadau Arolwg 2008-09 a'r arolygon blaenorol ar Oedolion Egnïol, oherwydd y newid i'r dull o arolygu.
- Gellir egluro'r gwahaniaethau'n rhannol o ran y gwahaniaethau yn y dulliau o gasglu data. Gan nad yw'r dulliau'n gymharus mewn gwirionedd, mae'r canlyniadau a gyflwynir yn adrodd yn ôl am 'awgrym o newid cyfeiriad' yn hytrach nag arddangos gwahaniaethau arwyddocaol yn ystadegol mewn cymryd rhan dros gyfnod o amser.
- Am wybodaeth bellach, gweler Adroddiad Technegol yr Arolwg.

Ffigwr 1: Unrhyw gyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden gorfforol yn ystod y pedair wythnos flaenorol (%)



Ar lefel yr awdurdod lleol, yng Nghaerdydd mae'r gyfradd gymryd rhan uchaf wrth hepgor biliards, snwcer a cherdded ac mae'r cyfranogiad yn Sir y Fflint yn sylweddol uwch na'r gyfradd genedlaethol hefyd.

Unwaith eto, mae cyfraddau cymryd rhan y rhan fwyaf o'r awdurdodau rhwng 35% a 45%, yn unol â'r gyfradd gymryd rhan genedlaethol o 39%.

Mae gan bump awdurdod lleol gyfraddau cymryd rhan is na'r gyfradd gymryd rhan genedlaethol. Fel gydag 'unrhyw gyfranogiad', mae Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Torfaen a Rhondda Cynon Taf i gyd islaw'r gyfradd genedlaethol, ynghyd ag Ynys Môn.

Cyfranogiad yn ôl mathau o weithgarwch

Wrth rannu'r cyfranogiad yn fath o weithgarwch, gellir gweld bod rhai mathau o weithgarwch yn cynnal eu cyfraddau cymryd rhan wrth i oedran gynyddu, fel a ddangosir yn *Ffigwr 2*, isod.

Felly, tra bo cyfranogiad mewn gemau a gweithgareddau awyr agored yn gostwng yn sylweddol y tu hwnt i'r grŵp oedran 15-24 oed, mae'r gyfradd gymryd rhan ar gyfer gweithgareddau awyr agored yn parhau'n fwy na 40% ar gyfer pob grŵp oedran wedi hynny, ac eithrio'r grŵp oedran 65+.

Ceir hefyd wahaniaethau arwyddocaol ym mhroffil y rhywiau ar gyfer rhai mathau o weithgarwch. Mae'r dynion deirgwaith yn fwy tebygol na'r merched o gymryd rhan mewn gemau awyr agored ond mae'r gwahaniaeth yn y cyfraddau cymryd rhan yn gymharol fychan (er yn sylweddol o hyd) ar gyfer gemau dan do.

Ffigwr 2: Cyfranogiad mewn gwahanol fathau o weithgarwch yn y pedair wythnos blaenorol (%)



Aelodaeth o glybiau chwaraeon a chyfranogiad ynddynt

Gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol

Mae 16% o oedolion yn aelodau o glwb chwaraeon. Mae hyn yn awgrymu cynnydd ers 2004-05 (12%)[1]. Mae'r aelodaeth o glwb yn gostwng gydag oedran: mae 25% o ieuenctid 15-24 oed yn aelodau o gymharu â 18% o'r rhai 25-34 oed a 17% o'r rhai 35-44 oed.

Mae *Ffigwr 3*, isod, yn dangos cyfraddau'r aelodaeth mewn clybiau fesul awdurdod lleol. Unwaith eto, mae gan y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol gyfraddau agos at y gyfradd genedlaethol ond, fel y cymryd rhan, mae'r aelodaeth o glwb yn sylweddol is na'r gyfradd aelodaeth genedlaethol ar gyfer nifer o awdurdodau Cymoedd De Cymru.

Mae gwrywod (22%) yn fwy tebygol o fod yn aelodau o glybiau chwaraeon na merched (11%). Ailadroddir y patrwm hwn ar lefel ranbarthol ond nid ym mhob achos ar lefel yr awdurdod lleol; yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae 38% o ddynion yn aelodau o glwb o gymharu â 10% o ferched. Ym Mlaenau Gwent, mae 10% o'r dynion a'r merched yn aelodau o glybiau.

Hyfforddiant a chyfarwyddyd chwaraeon

Dywedodd saith y cant o'r oedolion – gyda'r mwyafrif (51%) yn gyfranogwyr mewn clwb chwaraeon – eu bod wedi derbyn hyfforddiant neu gyfarwyddyd mewn gweithgaredd yn eu clwb chwaraeon yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

Dywedodd pump y cant o'r oedolion eu bod wedi derbyn hyfforddiant yn rheolaidd (hynny yw, o leiaf unwaith yr wythnos ar gyfartaledd). Mae proffil y rhai a dderbyniodd yr hyfforddiant yn unol yn fras â'r patrymau a welwyd ar gyfer aelodaeth o glwb a chyfranogiad mewn clwb.

1
- Mae angen cymryd gofal wrth lunio cymariaethau rhwng canlyniadau Arolwg 2008-09 a'r arolygon blaenorol ar Oedolion Egnïol, oherwydd y newid i'r dull o arolygu.
- Gellir egluro'r gwahaniaethau'n rhannol o ran y gwahaniaethau yn y dulliau o gasglu data. Gan nad yw'r dulliau'n gymharus mewn gwirionedd, mae'r canlyniadau a gyflwynir yn adrodd yn ôl am 'awgrym o newid cyfeiriad' yn hytrach nag arddangos gwahaniaethau arwyddocaol yn ystadegol mewn cymryd rhan dros gyfnod o amser.
- Am wybodaeth bellach, gweler Adroddiad Technegol yr Arolwg.

Ffigwr 3: Unrhyw aelodaeth o glwb chwaraeon (%)



Golwg gyffredinol ar gynllun yr arolwg

Seilir canlyniadau'r arolwg ar 22,176 o gyfweliadau gydag oedolion 15 oed a hŷn ar hyd a lled Cymru. Defnyddiwyd dull samplu tebygolrwydd ar hap, a haenwyd gan yr awdurdod lleol, gyda chartrefi dethol yn cael eu clystyru gan Ardal Allbwn. Cynhaliwyd mwy na 1,000 o gyfweliadau ym mhob awdurdod lleol. Gwnaed y gwaith maes dros gyfnod o 12 mis – rhwng 1af Mawrth 2008 a 28ain Chwefror 2009 – er mwyn osgoi unrhyw effeithiau tymhorol ar y canlyniadau.

Dewiswyd y cartrefi ar hap ar gyfer cymryd rhan yn yr ymchwil, gan ddefnyddio'r Ffeil Cyfeiriadau Cod Post sydd wedi'i llunio gan y Post Brenhinol. Roedd y dewis wedi cael ei glystyru fesul Ardal Allbwn (a ddewisir ar hap) er mwyn lleihau costau tra hefyd yn sicrhau bod yr arolwg yn gadarn. Wrth gysylltu â chartref dethol, roedd un oedolyn yn cael ei ddewis ar hap gan ddefnyddio'r Rheol Pen Blwydd Nesaf.

Nid oedd gorfodaeth ar i'r cartrefi a'r unigolion a ddewiswyd gymryd rhan yn yr arolwg ac ni chynigiwyd unrhyw gymhelliant iddynt i wneud hynny. Cysylltwyd â'r cartref hyd at 6 gwaith er mwyn cwblhau cyfweliad. Cynhaliwyd y cyfweliadau yng nghartref yr ymatebydd ac roeddent yn cymryd 21 munud i'w cwblhau ar gyfartaledd.

Mae'r arolwg yn cynnwys:

- lefelau cymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon a gweithgareddau hamdden gorfforol;
- aelodaeth o glybiau chwaraeon a chyfranogiad ynddynt;
- gwirfoddoli mewn chwaraeon;
- defnydd o ganolfannau hamdden a ffitrwydd;
- rhwystrau a chymhelliant ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon.

Mae gwybodaeth ddemograffig amrywiol yn cael ei chasglu ar gyfer ei dadansoddi hefyd, yn cynnwys rhyw, dosbarth cymdeithasol, oedran, anabledd a strwythur y cartref. Mae'r sampl yn cael ei haenu er mwyn gallu dadansoddi ar lefel yr awdurdod lleol ac i roi sylw i ddosbarthiadau daearyddol eraill hefyd.

Gwybodaeth ansawdd allweddol

a. Pwysolir ymatebion yr arolwg 2008-09 er mwyn rhoi ystyriaeth i debygolrwydd dethol anghyfartal ac ar gyfer diffyg ymateb gwahaniaethol, gan ddefnyddio protocol pwysoli tri cham. Mae hwn yn sicrhau bod dosbarthiad y sampl ymatebol yn cyfateb i boblogaeth Cymru o oedolion.

b. Lle cofnodir hynny, cyflwynir egwyliau hyder 95% (a gyfrifir gan ddefnyddio modiwl Samplau Cymhleth SPSS) wedi addasiad ar gyfer effeithiau'r cynllun.

c. Y gyfradd ymateb gyffredinol ar gyfer yr arolwg oedd 62%. Dylid nodi bod cynllun yr arolwg yn golygu y bydd y maint sampl effeithiol ryw faint yn llai nag union faint y sampl ac felly dylid dehongli'r meintiau a gofnodir ar gyfer y samplau fel canllaw yn unig o ran manwl gywirdeb.

d. Ceir diffiniadau o fesurau cymryd rhan yn y tablau data ac yn y testun lle bo hynny'n briodol.

e. Mae'r atebion coll wedi'u hepgor o'r tablau a'r dadansoddiadau i gyd.

f. Ar gyfer cymharu'r ystadegau a gofnodwyd o Arolwg 2008-09, defnyddir profion ystadegol ffurfiol er mwyn asesu'r gwahaniaethau sylweddol yn ystadegol.

g. Mae angen bod yn ofalus wrth lunio cymariaethau manwl rhwng canlyniadau Arolwg 2008-09 a'r Arolygon blaenorol ar Oedolion Egnïol oherwydd y newid yn y dull arolygu.

   Gellir egluro'r gwahaniaethau'n rhannol o ran y gwahaniaethau yn y dulliau o gasglu data. Gan nad yw'r dulliau'n gymharus mewn gwirionedd, mae'r canlyniadau a gyflwynir yn adrodd yn ôl am 'awgrym o newid cyfeiriad' yn hytrach nag arddangos gwahaniaethau arwyddocaol yn ystadegol mewn cymryd rhan dros gyfnod o amser.

   Ar gyfer arolwg 2004-05, cwblhawyd y cyfweliadau'n unol â'r cwotâu a dim ond un ymgais wnaeth y cyfwelwyr i gysylltu â'r cartrefi. Ar gyfer arolwg 2008-09, dewiswyd y cartrefi ar hap gan ddefnyddio sampl hap haenog a gwnaed hyd at chwe ymgais i gysylltu â hwy.

   Nid yw'r ddau ddull arolygu'n cymharu'n ystadegol mewn gwirionedd. Ffurfiwyd safbwyntiau ynghylch a ddylid ystyried gwahaniaethau dros amser fel ffactorau ystyrlon gan ddefnyddio egwyliau ffug-hyder yn unig ac nid ydynt yn ddilys yn ystadegol.

   Ceir gwybodaeth bellach am y mater hwn yn Adroddiad Technegol yr Arolwg.

h. Mae holl ystadegau'r awdurdodau lleol wedi'u talgrynu i'r pwynt canran agosaf. Mae'r ystadegau cenedlaethol ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau'n cael eu talgrynu i un pwynt degol.